

**Arolygiad dan Adran 10  
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996**

**Ysgol Gynradd Bancffosfelen  
Bancffosfelen  
Llanelli  
Sir Gaerfyrddin  
SA15 5DR**

**Rhif yr Ysgol: 669/2018**

**Dyddiad yr Arolygiad: 14–16 Tachwedd 2005**

**gan**

**Mr Wil Williams  
Arolygydd Cofrestredig WO88/67644**

**Dyddiad: 20 Rhagfyr 2005**

**Dan rif contract Estyn: T/036/05P**

© Hawlfraint y Goron 2005. Gellir aildefnyddio'r Adroddiad hwn yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y bod yn cael ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad. Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol roi copïau o'r adroddiad hwn yn rhad ac am ddim i gategorïau penodol o bobl. Hwyrach y caiff ffi heb fod yn fwy na chost atgynhychu ei chodi ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfathrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oed	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13
Oed	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	da gyda nodweddion rhagorol
<b>Gradd 2</b>	nodweddion da a dim diffygion pwysig
<b>Gradd 3</b>	nodweddion da yn gorbwyso diffygion
<b>Gradd 4</b>	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
<b>Gradd 5</b>	llawer o ddiffygion pwysig

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, mae yna adroddiadau hefyd ar chwe phwnc allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, mae yna adroddiadau hefyd ar bob pwnc.

Estyn sy'n penderfynu'r math o arolygiad a gaiff ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Caiff y rhan fwyaf o ysgolion arolygiad safonol. Caiff pob ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion sydd wedi eu cyfuno arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad safonol.

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Cyd-destun</b>	1
<b>Crynodeb</b>	2
<b>Argymhellion</b>	6
<b>Safonau</b>	7
Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	7
<b>Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant</b>	9
Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	9
Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	10
Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	12
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	13
Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	13
Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	14
Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	15
<b>Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu</b>	16
Plant dan bump oed	16
Cymraeg	18
Mathemateg	19
Technoleg gwybodaeth	20
Daearyddiaeth	20
Addysg gorfforol	21
<b>Ymateb yr ysgol i'r arolygiad</b>	22
<b>Atodiadau</b>	23
A Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	23
B Data a dangosyddion yr ysgol	23
C Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	24
Ch Sail dystiolaeth yr arolygiad	24
D Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	25



## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1. Ysgol gynradd ddwyieithog yw Ysgol Bancffosfelen sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 – 11 oed ac y mae wedi ei lleoli tua dwy filltir o Bontyberem yng Nghwm Gwendraeth. Mae mwyafrif y disgyblion yn byw yn y pentref neu'r ffermydd cyfagos.
2. Mae niferoedd y disgyblion wedi bod yn disgyn yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac ym Medi eleni, roedd 42 o ddisgyblion llawn amser ar gofrestr yr ysgol. Cânt eu haddysgu gan dri o athrawon llawn-amser, un athrawes rhan amser a thri cymhorthydd anghenion addysgol arbennig.
3. Cymraeg yw'r brif iaith a siaredir yn y cartref gan oddeutu 40% o'r disgyblion ond disgwylir i bob disgybl fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2.
4. Disgrifir yr ardal fel un nad yw yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae 21% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
5. Derbynnir plant i'r ysgol yn llawn amser ar ddechrau'r tymor y cânt eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae gan yr ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn ac mae eu cyrhaeddiad yn amrywio'n fawr pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae 22% o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae pedwar ohonynt â datganiad o anghenion addysgol arbennig.
6. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Rhagfyr 1999. Tros y ddwy flynedd cyn yr arolygiad bu sefyllfa staffio'r ysgol yn gyfnewidiol iawn oherwydd absenoldeb athrawon. Penodwyd y pennaeth presennol i swydd yn Ionawr 1998.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Mae prif flaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar gyfer y cyfnod 2005-07 yn cynnwys:
  - Codi a chynnal safonau Cymraeg a mathemateg ar draws yr ysgol;
  - Datblygu ymhellach rôl y cyd-gysylltwyr pwnc wrth fonitro'r ddarpariaeth addysgol;
  - Sicrhau bod deilliannau asesiadau safonol yn cael effaith ar y cynllunio a'r addysgu;
  - Datblygu ymwybyddiaeth amgylcheddol a datblygiadau cynaliadwy.

## Crynodeb

### Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

8. Roedd canfyddiadau'r ysgol yn cyd-fynd â barn y tîm arolygu mewn pump o'r saith Cwestiwn Allweddol. Roedd gwahaniaeth barn yng Nghwestiynau Allweddol 4 a 7 i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 3 i'r ddau gwestiwn allweddol.
9. Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

Cwestiwn allweddol	Gradd yr arolygiad
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	3
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	3
3 Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	3
4 Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	2
5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	3
6 Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	3
7 Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

### Safonau

10. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
0%	56%	44%	0%	0%

11. Mae safonau cyflawniad yn y meysydd dysgu a'r pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Meysydd Dysgu	Dan bump oed
Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 3
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2

Pynciau	Cyfnod allweddol 1	Cyfnod allweddol 2
Cymraeg	Gradd 3	Gradd 3
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2

Technoleg gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 2
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 2
Addysg gorfforol	Gradd 3	Gradd 3

12. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
13. Mae pob disgybl yn yr ysgol yn llwyddo beth bynnag fo ei gefndir cymdeithasol neu ieithyddol. Gwna'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gynnydd da o fewn eu gallu a'u hoedran.
14. Yn y medrau allweddol, gwna'r plant dan bump gynnydd da yn eu medrau cyfathrebu a mathemategol a dônt yn fwyfwy hyderus yn eu defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae gan y dysgwyr ddealltwriaeth oddefol dda o gyfarwyddiadau pob dydd yn y Gymraeg.
15. Gwna disgyblion Cyfnodau Allweddol 1 a 2 gynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau cyfathrebu. Gwnânt gynnydd da yn eu medrau mathemategol ac yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer cefnogi eu dysgu.
16. Mae hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn datblygu'n briodol ac erbyn Blwyddyn 6, mae canran da ohonynt yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg mewn nifer cyfyngedig o gyd-destunau cwricwlaidd. Er hynny, nid oes cynllunio digon bwriadus yng Nghyfnod Allweddol 2 ar gyfer datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr holl bynciau.
17. Roedd cyrhaeddiad y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn 2005, yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob pwnc craidd. Roedd perfformiad y merched yn sylweddol well na pherfformiad y bechgyn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.
18. Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn pryddau ysgol di-dâl, roedd canlyniadau disgyblion y ddau gyfnod allweddol ym mhob pwnc yn y chwarter isaf o'r perfformiad cenedlaethol.
19. Gwna disgyblion o bob oedran gynnydd da yn eu dysgu. Maent yn ymateb yn frwdfrydig yn y gwersi ac yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gwaith. Mae eu gallu i ddadansoddi eu gwaith a nodi sut y gellir ei wella, yn gyfyng.
20. Nid yw gallu disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol i weithio'n annibynnol wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Gellir priodoli hyn i raddau i dueddiad rhai athrawon i wneud gormod ar eu rhan.
21. Mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol. Cydweithiant yn rhwydd gyda'u cyd-ddisgyblion, maent yn ystyriol o deimladau disgyblion eraill ac yn ymroddedig i'w gwaith. Mae safonau ymddygiad disgyblion o bob oedran yn dda.



22. Mae medrau creadigol disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn dda, gyda rhai nodweddion rhagorol.
23. Trwy gydol yr ysgol, mae'r disgyblion yn parchu'r amrywiaeth credoau a thraddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o faterion cyfleoedd cyfartal ac o degwch. Mae hon yn nodwedd ragorol yn yr ysgol.
24. Roedd canran cyfartalog presenoldeb yr ysgol ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad, yn 91% ac mae lle i wella. Mae'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore.

### **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

25. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn :

<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
5%	59%	36%	0%	0%

26. Mae ansawdd addysgu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a'r plant dan bump yn gyson dda.
27. Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi yn gyffredinol dda. Mae'r athrawon yn cynllunio'n drylwyr, mae'r drefniadaeth ddosbarth yn effeithiol ac mae perthynas waith dda rhwng yr athrawon a'r disgyblion. Mae gan athrawon wybodaeth gadarn o'r pynciau a addysgir ganddynt; gwnânt ddefnydd effeithiol o adnoddau a defnyddiant ddulliau addysgu addas i gadarnhau hyfedredd dwyieithog disgyblion.
28. Pan fo nodweddion rhagorol i'r addysgu, mae cyflwyniadau'r athrawon yn fyrlymus ac ysgogol, mae'r tasgau'n heriol ac mae cyflymdra da iawn i'r gwersi.
29. Mewn lleiafrif bychan o wersi, mae cyflwyniadau'r athrawon yn rhy hir ac yn arafu'r addysgu, mae'r tasgau'n methu cynnal diddordeb y disgyblion ac mae diffyg her i'r gwaith.
30. Mae'r asesu yn drylwyr ac o ansawdd da. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac mae'r targedau personol a bennir i bob disgybl yn rhoi nod clir iddynt ar gyfer gwella. Nid yw'r sylwadau ar waith disgyblion bob amser yn esbonio'n glir sut y gallant ei wella.
31. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi darlun clir o gyflawniadau'r disgyblion ym mhob pwnc a rhoddant sylwadau gwerthfawr am eu datblygiad cymdeithasol.
32. Mae cynlluniau gwaith ar gyfer pob maes sy'n sicrhau y caiff y medrau sylfaenol, y medrau allweddol a'r Cwricwlwm Cymreig sylw digonol yn y cwricwlwm. Nid oes cynllunio digon bwriadus ar gyfer cyflwyno Addysg Personol a Chymdeithasol ac mae bylchau yn y ddarpariaeth.

33. Mae trefn glir ym Mlwyddyn 6 ar gyfer gosod gwaith cartref i'r disgyblion, ond nid yw'r arfer hwn yn gyffredin trwy'r ysgol.
34. Cyfoethogir y cwricwlwm gan amrywiaeth o ymweliadau addysgol a bydd disgyblion yn datblygu medrau gwerthfawr wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol megis eisteddfodau a chystadlaethau chwaraeon. Serch hynny, mae'r ystod o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir yn gyfyng. Nodwyd hyn fel maes i'w wella yn adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol.
35. Mae'r cyfarfodydd addoli-ar-y-cyd yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion o faterion moesol ond ychydig o sylw a roddir ynddynt i ddatblygiad ysbrydol y disgyblion.
36. Mae partneriaeth dda rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae Cymdeithas Ffrindiau'r Ysgol weithgar sy'n trefnu nifer o weithgareddau ar gyfer codi arian i brynu adnoddau i'r ysgol. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer cyfathrebu gyda'r rhieni.
37. Mae perthynas dda rhwng yr ysgol a'r gymuned a gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal.
38. Mae strategaethau'r ysgol ar gyfer delio ag amddifadedd cymdeithasol a herio stereoteipio yn un o elfennau rhagorol y ddarpariaeth. Sicrheir mynediad a chyfle cyfartal i bob disgybl. Mae polisïau cadarn ar gyfer addysg ryw, cyfleoedd cyfartal a chydaddoldeb hiliol.
39. Rhoddir lle priodol yn y cwricwlwm i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy ac mae arferion megis gweithredu trefn ailgylchu papur, yn pwysleisio pwysigrwydd y maes. Mae profiadau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm yn eu galluogi i ennill ystod addas o fedrau sy'n werthfawr o ran dysgu gydol oes.
40. Mae'r cysylltiadau gyda busnes a diwydiant yn brin ac ychydig iawn o sylw a roddir i ddatblygu medrau menter y disgyblion. Mae'r ysgol wedi adnabod hyn yn yr adroddiad hunan-arfarnu.
41. Mae ansawdd y gofal, yr arweiniad a'r cymorth a gynigir i ddisgyblion yn dda. Mae'r staff yn adnabod pob unigolyn yn dda ac mae'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol. Cymerir camau effeithiol i sicrhau diogelwch disgyblion ac mae gweithdrefnau addas i hyrwyddo ymddygiad da ac i atal bwllian.
42. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer adnabod a rhoi cynhaliaeth i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn dda. Cânt gefnogaeth dda yn y dosbarth gan y cymorthyddion.
43. Mae polisïau ar gyfer addysg ryw, cyfleoedd cyfartal a chydaddoldeb hiliol wedi'u sefydlu'n gadarn ac yn hysbys i bob aelod o'r staff. Mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys rhai ag anabledd. Llwydda'r ysgol yn dda i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

44. Mae arweinyddiaeth gadarnhaol y pennaeth yn cydlynu gwaith y staff a'r corff llywodraethwyr yn effeithiol, gan roi cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol. Rheolir yr ysgol o ddydd-i-ddydd yn effeithiol ac mae trefniadau da ar gyfer cysylltu gyda'r rhieni.
45. Mae'r athrawon yn ddiweddar wedi ysgwyddo cyfrifoldebau cwricwlaidd newydd, ond nid ydynt eto wedi dechrau gweithredu eu rôl fel cyd-gysylltwyr pwnc.
46. Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn drylwyr iawn. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn chwarae rhan weithredol yn ei datblygiad, ond nid yw eu rôl monitro ac arfarnu wedi'i ddatblygu'n ddigonol.
47. Mae rhai nodweddion da yn strategaethau hunan-arfarnu'r ysgol er bod bylchau yn y trefniadau. Nid ydynt wedi bod yn weithredol yn ddigon hir iddynt arwain at godi safonau a gwella'r ddarpariaeth addysgol.
48. Mae cyswllt da rhwng deilliannau'r hunan-arfarniadau a blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol. Mae'r cynllun yn gyffredinol dda, er nad oes gwahaniaethu digon clir rhwng y brif flaenoriaeth a'r rheini nad ydynt cyn bwysiced.
49. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da mewn tri o'r pum Mater Allweddol a nodwyd yn adroddiad 1999. Mae'r safonau mewn mathemateg, technoleg gwybodaeth ac addysg gorfforol wedi codi, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig bellach yn dda a gwnaed pob ymdrech i wneud y gorau o gyfleusterau'r adeilad. Mae mwy o waith i'w wneud ar ddatblygu rôl y cyd-gysylltwyr pwnc ac ar ddileu rhai o'r diffygion yn yr addysgu.
50. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol ac effeithlon o'i holl adnoddau dynol. Mae digon o athrawon gyda chymwysterau addas i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Mae cyflenwad digonol o adnoddau ar gyfer y mwyafrif helaeth o'r meysydd a gwneir defnydd effeithiol o holl ystafelloedd a thiroedd yr ysgol. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn groesawgar ac yn lliwgar, gyda'r arddangosfeydd o waith disgyblion yn adnodd dysgu ac addysgu gwerthfawr.
51. Mae rheolaeth dynn ar y gyllideb; mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

52. Er mwyn gwella'r meysydd a arolygwyd yn yr ysgol, mae angen i'r staff a'r llywodraethwyr:
  - A1 godi safonau yn y Gymraeg ac addysg gorfforol trwy roi sylw i'r diffygion a nodwyd;

- A2 weithredu'r rhaglen hunan arfarnu a chryfhau rôl monitro y corff llywodraethu;
- A3 ddatblygu rôl y cydlynwyr pwnc yn y trefniadau hunan arfarnu;
- A4 gynllunio yn fwy bwriadus ar gyfer cyflwyno gofynion y Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol.
- A5 wella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith a datblygu medrau menter y disgyblion.

Y corff llywodraethol sy'n gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau mewn ymateb i'r argymhellion o fewn 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud am yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i holl rieni'r ysgol.

## Safonau

### Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

#### Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

- 53. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 54. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
0%	56%	44%	0%	0%

- 55. Mae safonau cyflawniad yn y meysydd dysgu a'r pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Meysydd Dysgu	Dan bump oed
Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 3
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2

Pynciau	Cyfnod allweddol 1	Cyfnod allweddol 2
Cymraeg	Gradd 3	Gradd 3
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 2
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 2
Addysg gorfforol	Gradd 3	Gradd 3

56. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
57. Mae mwyafrif da o'r disgyblion yn cyflawni safonau da o ran eu gwybodaeth a'u medrau ac yn cyrraedd y targedau a bennir ar eu cyfer. Gwna'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gynnydd da o fewn eu gallu a'u hoedran. Mae pob disgybl yn yr ysgol yn llwyddo beth bynnag y bo ei gefndir cymdeithasol neu ieithyddol.
58. Yn y medrau allweddol, gwna'r plant dan bump gynnydd da yn eu medrau cyfathrebu a'u medrau mathemategol a dônt yn fwyfwy hyderus yn eu defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae gan y dysgwyr ddealltwriaeth oddefol dda o gyfarwyddiadau pob dydd yn y Gymraeg.
59. Gwna disgyblion y ddau gyfnod allweddol gynnydd da yn yr holl fedrau allweddol. Maent yn trafod, darllen ac ysgrifennu yn eu mamiaith yn hyderus ac yn defnyddio eu medrau mathemategol gyda chywirdeb cynyddol. Gwnânt ddefnydd da o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi eu dysgu.
60. Mae hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn datblygu'n briodol. Gwna dysgwyr y Gymraeg gynnydd da yn eu gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith ac erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif ohonynt yn gallu defnyddio'r Gymraeg mewn nifer cyfyngedig o gyd-destunau cwricwlaidd.
61. Roedd cyrhaeddiad y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn 2005, yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob pwnc craidd. Roedd perfformiad y merched yn sylweddol well na pherfformiad y bechgyn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.
62. Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol di-dâl, roedd canlyniadau disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn y chwarter isaf y perfformiad cenedlaethol ym mhob pwnc.
63. Gwna disgyblion o bob oedran gynnydd da yn eu dysgu. Maent yn ymateb yn frwdfrydig wrth ddysgu gwybodaeth neu fedrau newydd ac maent yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gwaith. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn deall pwrpas a natur y tasgau dan sylw, ond maent yn ansicr wrth geisio dadansoddi cryfderau a gwendidau eu gwaith a nodi sut y gellir ei wella.
64. Mae medrau personol a chymdeithasol disgyblion o bob oedran yn dda. Cydweithiant yn rhwydd; maent yn barod iawn i drafod ac i wrando ar syniadau disgyblion eraill ac maent yn ystyriol o'u teimladau. Mae'r disgyblion bron yn ddieithriad, yn ymroddedig i'w gwaith ac yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'u hamser.
65. Mae safonau ymddygiad yn dda ym mhob dosbarth. Mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ym mhob sefyllfa yn yr ysgol ac yn

parchu'r disgyblion a'r oedolion eraill sydd o'u cwmpas. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn dangos elfen uchel o hunanddisgyblaeth.

66. Ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad, roedd canran cyfartalog presenoldeb yr ysgol yn 91% ac mae lle i wella. Mae'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore.
67. Pan gânt gyfleoedd, gall disgyblion Cyfnod Allweddol 2 weithio'n annibynnol a chyfarwyddo gwaith eu hunain. Fodd bynnag, mae tueddiad gan rai athrawon i wneud gormod dros y disgyblion ac i beidio â rhoi cyfrifoldeb uniongyrchol iddynt dros eu dysgu.
68. Mae medrau creadigol disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn dda gyda rhai nodweddion rhagorol. Cyflawnwyd gwaith celf o safon uchel ym mhob dosbarth.
69. Trwy gydol yr ysgol, mae'r disgyblion yn parchu'r amrywiaeth credoau, agweddau a thraddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o faterion cyfleoedd cyfartal ac o degwch. Mae hon yn nodwedd ragorol yn yr ysgol.

### **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

**Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?**

**Gradd 3 : Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

70. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
71. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn :

<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
5%	59%	36%	0%	0%

72. Mae ansawdd addysgu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gyson dda. Felly hefyd yr addysgu ar gyfer y plant dan bump oed, er nad oes pwyslais digonol ar ddefnyddio gweithgareddau chwarae strwythuredig.
73. Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi yn gyffredinol dda. Mae'r athrawon yn cynllunio'n drylwyr, mae'r drefniadaeth ddosbarth yn effeithiol ac mae perthynas waith dda rhwng yr athrawon a'r disgyblion. Mae gan athrawon wybodaeth gadarn o'r pynciau a addysgir ganddynt, sicrhânt fod disgyblion yn ymwybodol o nodau'r gwersi a rhoddant gyfarwyddiadau clir a chryno wrth osod tasgau. Gwnânt ddefnydd effeithiol o adnoddau yn arbennig y bwrdd gwyn rhyngweithiol, a defnyddiant dulliau addysgu addas i gadarnhau hyfedredd dwyieithog disgyblion.

74. Pan fo nodweddion rhagorol i'r addysgu, mae cyflwyniadau'r athrawon yn fyrlymus ac ysgogol, mae'r tasgau'n heriol ac mae cyflymdra da iawn i'r gwersi.
75. Mewn lleiafrif bychan o wersi, mae cyflwyniadau'r athrawon yn rhy hir ac yn arafu'r addysgu, mae'r tasgau'n anniddorol ac yn methu cynnal diddordeb y disgyblion ac mae diffyg her i'r gwaith.
76. Mae'r asesu yn drylwyr ac o ansawdd da. Mae ansawdd asesu plant dan bump oed, a'r asesu sylfaen, yn dda. Yng Nghyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2, asesir cynnydd disgyblion yn yr holl bynciau'n rheolaidd a chedwir cofnod manwl o'u cynnydd.
77. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Er bod athrawon yn ymateb yn adeiladol, nid yw'r sylwadau bob amser yn esbonio'n glir sut y gall disgyblion wella eu gwaith.
78. Mae'r targedau personol a bennir i bob disgybl yn rhoi nod clir iddynt ar gyfer gwella, ond prin yw'r defnydd a wneir o strategaethau hunan asesu. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn ymwybodol o'r targedau yn eu cynllun addysg unigol, ac yn ymdrechu'n galed i'w cyflawni.
79. Gwneir defnydd pwrpasol o ganlyniadau asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol, o brofion safonedig ac o asesiadau athrawon i gynllunio a gwella dysgu.
80. Mae'r portffolios o waith disgyblion a luniwyd yn y Gymraeg ac mewn mathemateg yn offerynnau defnyddiol ar gyfer safoni asesiadau'r athrawon. Nid oes portffolios cyffelyb ym mhynciau craidd eraill.
81. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi darlun clir o gyflawniadau'r disgyblion ym mhob pwnc a rhoddant sylwadau gwerthfawr am ddatblygiad cymdeithasol disgyblion. Maent yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol.

**Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

82. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
83. Mae'r rhaglenni astudio sydd wedi'u cynllunio'n fanwl yn ymateb yn dda i anghenion dysgu'r disgyblion o bob oedran a gallu.
84. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
85. Mae cynlluniau gwaith addas ar gyfer pob maes sy'n sicrhau y darperir profiadau diddorol, amrywiol a gwahaniaethol i'r holl ddisgyblion. Nodir y

- cyfleoedd ym mhob cynllun ar gyfer datblygu'r medrau sylfaenol a'r medrau allweddol. Rhoddir lle amlwg i'r Cwricwlwm Cymreig yn rhaglen waith yr ysgol.
86. Mae trefn glir ym Mlwyddyn 6 ar gyfer gosod gwaith cartref yn rheolaidd i'r disgyblion, ond nid yw'r arfer hwn yn gyffredin trwy'r ysgol.
  87. Mae'r ysgol yn hybu hyfedredd dwyieithog y disgyblion ar bob achlysur ond nid oes cynllunio digon bwriadus yng Nghyfnod Allweddol 2 ar gyfer datblygu'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y gwahanol bynciau.
  88. Cyfoethogir y cwricwlwm gan amrywiaeth o ymweliadau addysgol a gan ymweliadau gan aelodau o'r gymuned a ddaw i rannu eu profiadau a'u harbenigedd gyda'r disgyblion.
  89. Bydd disgyblion yn datblygu medrau gwerthfawr wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol megis eisteddfodau a chystadlaethau chwaraeon, ond mae'r ystod o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir ar eu cyfer yn gyfyng. Nodwyd hyn fel maes i'w wella yn adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol.
  90. Nid oes rhaglen gynhwysfawr wedi'i chynllunio ar gyfer cyflwyno holl ofynion y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac o'r herwydd, mae bylchau pwysig yn y ddarpariaeth bresennol. Ailsefydlwyd y Cyngor Ysgol yn ddiweddar ond ni chynhelir sesiynau amser cylch.
  91. Mae'r cyfarfodydd addoli-ar-y-cyd yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion o faterion moesol ond ychydig o sylw a roddir ynddynt i ddatblygiad ysbrydol y disgyblion.
  92. Mae'r cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion weithio gydag asiantaethau allanol megis Menter Cwm Gwendraeth a'r Heddlu, yn cyfoethogi eu profiadau dysgu ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w gymuned.
  93. Mae partneriaeth dda rhwng yr ysgol a'r rhieni ac ategwyd hyn yn yr holiaduron a dderbyniwyd gan rieni ac yn y cyfarfod cyn-arolygiad. Mae Cymdeithas Ffrindiau'r Ysgol gweithgar yn trefnu nifer o weithgareddau ar gyfer codi arian i brynu adnoddau i'r ysgol.
  94. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer cyfathrebu gyda'r rhieni. Mae llawlyfr yr ysgol ac Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu i'r Rhieni o ansawdd da ac yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.
  95. Mae perthynas dda rhwng yr ysgol a'r gymuned ac mae'r disgyblion yn cymryd rhan flaenllaw yn nathliadau a digwyddiadau lleol.
  96. Mae partneriaeth gynhyrchiol iawn gydag ysgolion cynradd y dalgylch. Cydweithia'r ysgolion yn dda ac maent ar y pryd wrthi'n datblygu adnoddau ar gyfer y bwrdd gwyn rhyngweithiol.



97. Mae partneriaeth effeithiol iawn gyda'r ysgolion uwchradd y trosglwydda'r disgyblion iddynt ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Gweithredir cynllun pontio pwrpasol ac mae cyswllt da rhwng athrawon y ddau sector.
98. Mae strategaethau'r ysgol ar gyfer delio ag amddifadedd cymdeithasol a herio stereoteipio yn un o elfennau rhagorol yn y ddarpariaeth. Sicrheir mynediad a chyfle cyfartal i bob disgybl.
99. Rhoddir lle priodol yn y cwricwlwm yn gyffredinol ac yn arbennig mewn gwersi daearyddiaeth, i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy. Mae arferion dydd-i-ddydd yr ysgol megis gweithredu trefn ailgylchu papur, yn pwysleisio pwysigrwydd y maes.
100. Mae profiadau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm yn eu galluogi i ennill ystod addas o fedrau sy'n werthfawr o ran dysgu gydol oes. Mae'r rhain yn cynnwys dwyieithrwydd, medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a rhifedd, a medrau personol a chymdeithasol. Ni roddir sylw digonol yn y cwricwlwm i hyrwyddo annibyniaeth y dysgwyr ac i ddatblygu eu gallu i reoli eu dysgu eu hunain.
101. Mae'r cysylltiadau gyda busnes a diwydiant yn brin ac ychydig iawn o sylw a roddir i ddatblygu medrau menter y disgyblion. Mae'r ysgol wedi adnabod hyn yn yr adroddiad hunan arfarnu.

#### **Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?**

##### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

102. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i farn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 3 i'r cwestiwn allweddol hwn. Nid oedd y diffygion a nodwyd yn adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol yn rhai digon pwysig i ddyfarnu Gradd 3 i'r Cwestiwn Allweddol.
103. Mae ansawdd y gofal, yr arweiniad a'r cymorth a gynigir i ddisgyblion yn dda. Cydweithia'r ysgol yn dda gyda'r Awdurdod Addysg Lleol gan wneud defnydd effeithiol o ystod o asiantaethau addas.
104. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda. Teimla disgyblion eu bod yn gallu rhannu pryderon neu gwynion yn rhwydd gyda'u hathrawon.
105. Mae gan y rhieni hyder yn y gofal a'r cyfarwyddyd a gaiff eu plant ac mae disgyblion yn hynod o hapus yn yr ysgol. Gwerthawrfoga'r rhieni y polisi drws agored iddynt drafod pryderon gyda'r staff.
106. Mae plant dan bump oed yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae'r trefniadau iddynt ymweld â'r dosbarth yn y tymor cyn eu bod yn dechrau yn yr ysgol yn gymorth iddynt ymgartrefu'n gyflym.

107. Cydweithia'r ysgol yn dda gyda nifer o asiantaethau er mwyn hyrwyddo iechyd a diogelwch disgyblion. Mae'r sylw a roddir i fwydydd iach, a'r peiriant dŵr yn yr ysgol, yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o arferion da byw yn iach. Mae'r agweddau hyn yn cyfrannu'n dda at gwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol.
108. Mae gweithdrefnau effeithiol i fonitro a hyrwyddo ymddygiad da ac atal bwllian. Mae'r disgyblion yn elwa o'r cyfle i drafod rheolau dosbarth cyn eu mabwysiadu. Ble mae unigolion yn achosi pryder, mae cefnogaeth dda ar gael iddynt.
109. Mae'r cofrestrau yn ymateb y gofynion statudol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'u system gyfrifiadurol i fonitro presenoldeb unigolion yn effeithiol.
110. Mae'r camau ymarferol a gymerir i sicrhau diogelwch disgyblion tra byddant yn yr ysgol yn effeithiol. Nodir y trefniadau hyn yn glir o fewn dogfennaeth yr ysgol a chânt eu gweithredu'n effeithiol.
111. Mae'r staff â gwybodaeth dda o'r canllawiau ar gyfer amddiffyn plant ac mae trefniadau da ar gyfer cymorth cyntaf.
112. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer adnabod a rhoi cynhaliaeth i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn dda. Caiff y disgyblion gefnogaeth dda gan gymorthyddion yn y dosbarth a hefyd mewn grwpiau bychain gan y cydlynnydd anghenion addysgol arbennig. Mae'r cyswllt agos rhwng yr ysgol a rhieni'r disgyblion hyn yn hyrwyddo cynnydd a chydweithio.
113. Mae polisïau ar gyfer addysg ryw, cyfleoedd cyfartal a chydraddoldeb hiliol wedi'u sefydlu'n gadarn, ac yn hysbys i bob aelod o'r staff. Mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys rhai ag anabledd. Mae cynllun addasu'r adeilad er mwyn sicrhau mynediad i ddisgyblion ag anableddau corfforol eisoes ar waith.
114. Llwydda'r ysgol yn dda i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill. Mewn nifer o bynciau mae'r gwaith yn adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddir o fewn yr ysgol i oddefgarwch a pharch tuag at eraill.

## **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

**Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

115. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
116. Mae arweinyddiaeth gadarnhaol y pennaeth yn cydlynu gwaith y staff a'r corff llywodraethwyr yn effeithiol gan roi cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae nodau, amcanion a gwerthoedd cytunedig sy'n hysbys i bawb ac sy'n rhoi

blaenoriaeth uchel i hyrwyddo datblygiad addysgol, emosiynol a phersonol pob disgybl. Hyrwyddir cydraddoldeb i bawb, yn oedolion a disgyblion.

117. Dan arweiniad y pennaeth, cydweithia'r staff yn effeithiol fel tîm. Maent yn ddiweddar wedi ysgwyddo cyfrifoldebau cwricwlaidd newydd, ond nid ydynt eto wedi dechrau gweithredu eu rôl fel cyd-gysylltwyr pwnc.
118. Rhoddir ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r ysgol wedi ennill ail-achrediad Marc Safon Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol; mae yn rhan o gynllun Eco Ysgolion ac mae'n aros ei thro i ymuno â chynllun cenedlaethol Yr Ysgol Iach.
119. Mae'r ysgol yn gosod a chwrdd â thargedau a nodau heriol a realistig. Mae'r gweithdrefnau asesu manwl ynghyd â'r trefniadau sirol ar gyfer profi ac olrhain cynnydd disgyblion, yn galluogi'r ysgol i bennu targedau uchelgeisiol a chyraeddadwy ar gyfer pob disgybl.
120. Gweithredir y gyfundrefn Rheoli Perfformiad yn drylwyr. Adolygir perfformiad pob aelod staff yn flynyddol yng nghyd-destun eu hanghenion proffesiynol a blaenoriaethau'r ysgol.
121. Rheolir yr ysgol o ddydd-i-ddydd yn effeithiol ac mae trefniadau da ar gyfer cysylltu gyda'r rhieni. Sicrheir amser digonol i bob aelod staff addysgu ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.
122. Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn drylwyr iawn. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn chwarae rhan weithredol yn ei datblygiad. Trafodant bolisiâu'r ysgol mewn manylder ac maent yn gweithredu ar yr wybodaeth a dderbyniant gan y pennaeth, ond nid yw eu rôl monitro ac arfarnu wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

### **Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?**

#### **Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

123. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
124. Roedd canfyddiadau'r ysgol yn cyd-fynd â barn y tîm arolygu mewn pump o'r saith Cwestiwn Allweddol. Roedd gwahaniaeth barn yng Nghwestiynau Allweddol 4 a 7 i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 3 i'r ddau gwestiwn allweddol.
125. Gweithredwyd trefniadau hunan-arfarnu'r ysgol gan y pennaeth trwy ymweld â dosbarthiadau, dadansoddi data ac arfarnu cynnydd disgyblion mewn rhai meysydd. Cyweiniwyd barn rhieni trwy holiaduron a dadansoddiwyd yr wybodaeth yn fanwl. Adroddwyd yn llawn i'r staff a'r llywodraethwyr ar ddeilliannau'r hunan-arfarniadau.

126. Ychydig o ddefnydd wnaed o ddata meincnodol er mwyn cymharu perfformiad yr ysgol gyda theuluoedd o ysgolion tebyg ac ni chynhwyswyd y Cyngor Ysgol yn yr arfarniadau. Nid yw'r gweithdrefnau hunan-arfarnu wedi bod yn weithredol yn ddigon hir iddynt arwain at godi safonau a gwella'r ddarpariaeth addysgol.
127. Mae agweddau da i'r adroddiad hunan-arfarnu cryno a gyflwynwyd i'r tîm arolygu cyn yr arolygiad er bod rhai bylchau ym mhob cwestiwn allweddol. Dengys bod rhai trefniadau hunan-arfarnu wedi'u sefydlu yn yr ysgol a bod bwriad i'w datblygu ymhellach eto.
128. Mae cyswllt da rhwng deilliannau'r hunan-arfarniadau a'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Datblygu Ysgol.
129. Mae'r Cynllun Datblygu yn offeryn defnyddiol ar gyfer rhoi cyfeiriad i ddatblygiad yr ysgol dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys targedau priodol, meini prawf llwyddiant a chymau gweithredu clir ac amcangyfrif realistig o'r costau. Mae ansawdd cyffredinol y cynllun yn dda, ond nid oes gwahaniaethu digon clir rhwng y brif flaenoriaeth a'r rheini nad ydynt cyn bwysiced.
130. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd mewn tri o'r pum Mater Allweddol a nodwyd yn adroddiad 1999. Mae'r safonau mewn mathemateg, technoleg gwybodaeth ac addysg gorfforol wedi codi. Bellach mae darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a gwnaed pob ymdrech i wneud y gorau o gyfleusterau'r adeilad.
131. Mae mwy o waith i'w wneud ar ddatblygu rôl y cyd-gysylltwyr pwnc a dileu rhai o'r diffygion yn yr addysgu.

### **Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?**

#### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

132. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i farn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 3 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol yn gor-bwysleisio'r diffygion yn yr adeiladau a'r ystafelloedd dysgu, ond gan nad yw'r diffygion yn amharu ar ansawdd y ddarpariaeth addysgol, ni ellir eu hystyried fel diffygion pwysig.
133. Mae digon o athrawon gyda chymwysterau addas i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Defnyddir arbenigeddau'r staff yn dda wrth gyfnewid dosbarthiadau, a rhennir cyfrifoldebau am agweddau a phynciau yn deg rhwng athrawon.
134. Gwelir effaith fuddiol hyfforddiant mewn swydd ar agweddau o'r dysgu a'r addysgu. Mae datblygiad proffesiynol athrawon wedi'i berthnasu'n agos i'r blaenoriaethau a arenwir yn y Cynllun Datblygu Ysgol.

135. Gwneir defnydd effeithiol ac effeithlon o'r holl adnoddau dynol. Gweithia'r cymorthyddion dysgu yn effeithiol iawn yn y dosbarthiadau i hyrwyddo cynnydd y disgyblion dan eu gofal a gwna'r swyddog gweinyddol gyfraniad allweddol i rediad esmwyth yr ysgol.
136. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac wedi'u lleoli'n hwylus ar gyfer y disgyblion. Maent yn sicrhau bod mynediad llawn i ddisgyblion i holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Er hynny, prin yw'r offer mawr ar gyfer plant dan bump oed ac nid oes digon o ddeunydd darllen ar gyfer bechgyn.
137. Er bod adeiladwaith rhannau o'r adeilad angen sylw, mae gofod digonol yn y rhelyw o'r adeilad ar gyfer addysgu a dysgu. Gwneir defnydd effeithiol o'r holl ystafelloedd, y manau chwarae allanol ac o'r neuadd helaeth. Mae'r ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd eraill yn groesawgar ac yn lliwgar, gyda'r arddangosfeydd o waith disgyblion yn adnodd dysgu ac addysgu gwerthfawr.
138. Mae rheolaeth gyllidol yn dynn a'r ysgol yn gweithredu'n dda o fewn ei chyllid. Defnyddir y cynllun datblygu ysgol fel arf i gynllunio'n gyllidol ar gyfer y dyfodol ac mae'r pennaeth, y swyddog gweinyddol a'r corff llywodraethol yn monitro gwariant yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

### Plant dan bump oed

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Meysydd Dysgu	Dan bump oed
Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 3
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2

139. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

#### Nodweddion da

##### *Iaith llythrennedd a chyfathrebu*

140. Mae'r plant yn gwrando'n dda, ac yn ymateb yn frwdfrydig. Deallant gyfarwyddiadau a defnyddiant batrymau iaith elfennol yn gywir a phwrpasol wrth ymateb i gwestiynau ac wrth drafod stori. Maent yn dal llyfrau'n gywir ac yn sylweddoli bod lluniau yn rhoi gwybodaeth iddynt am gynnwys llyfr. Maent yn adnabod ac yn ffurfio nifer dda o lythrennau yn gywir ac yn tangopïo

geiriau yn daclus. Mae eu medrau Cymraeg yn datblygu'n dda wedi ond cyfnod byr yn yr ysgol.

#### *Datblygiad personol a chymdeithasol*

141. Mae'r plant yn ymateb yn dda i drefn y dydd, ac yn deall beth yw disgwyliadau ymddygiad y dosbarth. Gwnânt ddewisiadau trostynt eu hunain a deallant fod rhaid iddynt aros eu tro wrth chwarae gêm. Gwyddant am bwysigrwydd gofal personol a deallant fod rhaid iddynt ofalu am eu cyrff, a bod glendid yn bwysig. Maent yn sensitif i anghenion ac anawsterau plant eraill ac amlygant barch a chonsŷrn tuag at bethau byw.

#### *Datblygiad mathemategol*

142. Mae'r plant yn cyfrif hyd at 20 yn hyderus ac yn canu caneuon rhif yn gywir. Gallant osod rhifau hyd at 10 yn gywir ar linell rhif. Maent yn enwi ac yn deall beth yw nodweddion siapiau dau ddimensiwn. Defnyddiant y cysyniad o 'mwy na' a 'llai na' wrth gymharu pwysau ffrwythau. Sylweddolant fod graff yn gallu cyfleu gwybodaeth a llwyddant i drefnu gwrthrychau yn seiliedig ar siâp a lliw mewn setiau. Gwyddant fod angen arian er mwyn prynu pethau yn y siop.

#### *Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd*

143. Gŵyr y plant beth yw prif nodweddion y tymhorau. Maent yn adnabod lliwiau'n dda ac yn enwi ffrwythau a llysiau yn hyderus. Mae ganddynt syniad bras am y modd mae teganau wedi newid dros amser. Gwyddant am wahaniaethau rhwng y wlad a'r dref ac mae ganddynt wybodaeth dda am waith gwahanol bobl. Maent yn lleoli gwrthrychau ar rid syml yn gywir.

#### *Datblygiad creadigol*

144. Mae'r plant yn defnyddio ystod o gyfryngau i greu lluniau effeithiol. Defnyddiant baent a chreonau yn hyderus a gallant argraffu patrymau lliwgar. Gweithiant yn effeithiol gyda chlai i greu potiau chwaethus a defnyddiant raglen gyfrifiadurol yn gelfydd. Maent yn chwarae rôl yn effeithiol ac yn canu'n swynol gydag ymwybyddiaeth dda o rhythm.

#### *Datblygiad corfforol*

145. Mae'r plant yn arddangos medrau da wrth drin pensiliau, creonau ac offer argraffu. Maent yn trafod blociau a darnau jig-so yn hyderus ac yn defnyddio offer torri a gludo yn effeithiol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'u cyrff wrth redeg, cerdded a neidio mewn gwersi addysg gorfforol, a defnyddiant fedrau trin pêl da ar yr iard. Dangosant reolaeth gynyddol wrth ddefnyddio beiciau ar yr iard.

### **Diffygion**

146. Nid oes gan y plant ddigon o hyder i ddefnyddio'r Gymraeg wrth iddynt ymgymryd â'u gweithgareddau.

## Cymraeg

### Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

### Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

#### Nodweddion da

147. Yng Nghyfnod Allweddol 1, mae'r disgyblion yn gwrando'n dda mewn ystod o sefyllfaoedd. Gwrandawant yn astud ar storïau, ar gyfarwyddiadau ac ar ei gilydd. Siaradant yn eglur, gan fynegi anghenion yn glir, a defnyddiant eirfa briodol wrth drafod eu gwaith.
148. Mae'r disgyblion yn darllen yn dda. Mae ganddynt wybodaeth dda o seiniau llythrennau a defnyddiant strategaethau addas wrth dad-ddynodi geiriau anghyfarwydd. Defnyddiant gliwiau lluniau i'w helpu i ddeall cynnwys llyfrau, ac maent yn uniaethu â chymeriadau yn eu hoff storïau. Mae'r goreuon yn darllen yn rhugl ac yn ystyrlon.
149. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn ffurfio llythrennau'n gywir ac yn ysgrifennu geiriau a brawddegau syml yn effeithiol. Mae ganddynt wybodaeth briodol am iaith a defnyddiant ystod o farciau atalnodi yn gywir. Mae eu medrau sillafu a llawysgrifen yr ysgrifenywyr mwyaf hyderus, yn dda. Defnyddiant ansoddeiriau addas wrth lunio cerddi ac maent yn ysgrifennu'n fywiog mewn ffurfiau amrywiol.
150. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae'r disgyblion yn sgwrsio'n hyderus gyda'i gilydd ac yn trafod eu gwaith yn wybodus gydag oedolion. Llefariant yn glir ac ar frig yr ysgol, mae nifer fach o ddisgyblion yn mynegi barn yn hynod o effeithiol. Ym Mlynnyddoedd 3, 4 a 5 dengys y mwyafrif o'r disgyblion barodrwydd i wrando ac i ymateb yn addas i gwestiynau ac i fynegi barn.
151. Mae mwyafrif da o'r disgyblion yn darllen yn ystyrlon a gyda rhuglder. Darllenant amrywiaeth o lyfrau a gwnânt ddefnydd effeithiol o eiriaduron. Ar draws y cyfnod allweddol, mae disgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus gyda goslefu priodol. Ar frig yr ysgol amlyga'r disgyblion uwch-fedrau darllen da wrth chwilio am wybodaeth oddi ar y we.
152. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ysgrifennu mewn ystod dda o wahanol ffurfiau. Maent yn amrywio eu brawddegau ac yn ymwybodol fod ansoddeiriau ac adferfau addas yn gwella eu hysgrifennu. Mae'r elfennau hyn i'w gweld yn glir yn y cerddi a gynhyrchwyd dan arweiniad awdur proffesiynol. Mae'r lleiafrif o ddisgyblion ym mhob dosbarth yn ysgrifennu'n estynedig gan amlygu gwybodaeth dda am ddulliau o greu effeithiau megis defnyddio cymariaethau.

#### Diffygion

153. Mae diffyg gwybodaeth o eirfa a chystrawen addas yn amharu ar safonau llafaredd ac ysgrifennu tua hanner disgyblion yr ysgol.

## Mathemateg

### Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

### Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

#### Nodweddion da

154. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau gyda chywirdeb cynyddol. Maent yn gwybod beth mae pob digid yn ei gynrychioli mewn rhifau dau a thri digid. Erbyn Blwyddyn 2, gallant ddisgrifio ac ymestyn dilyniannau rhif syml gan gynnwys eilrifau ac odrifau, a chyfrif ymlaen ac yn ôl fesul un neu fesul degau ac adnabod patrymau mewn cyfres o rifau.
155. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau adio a thynnu ac maent yn deall fod tynnu yn wrthdro i adio. Maent yn gwybod ar y cof ffeithiau adio a thynnu hyd at ddeg ac yn gallu defnyddio'r wybodaeth honno i wneud cyfrifiadau gyda rhifau mwy na deg.
156. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio unedau mesur safonol gyda chywirdeb priodol ac maent yn ymdrin ag arian yn hyderus. Maent yn enwi siapiau tri a dau ddimensiwn ac yn eu disgrifio yn ôl eu priodweddau.
157. Gwna disgyblion Cyfnod Allweddol 1 gynnydd da yn eu gallu i gasglu, cofnodi a dehongli data.
158. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn datblygu strategaethau eu hunain ar gyfer datrys problemau rhifol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werth lle gan gynnwys nodiant degol ac arian, ac erbyn Blwyddyn 6, mae'r disgyblion yn lluosu a rhannu rhifau gyda 10 a 100. Mae nifer dda o'r disgyblion yn adalw ffeithiau adio a thynnu yn y pen ac ar bapur yn rhwydd ac maent yn datblygu amrediad priodol o strategaethau gwaith pen. Mae ganddynt feistrolaeth dda o'r pedair gweithdrefn a defnyddiant gyfrifiannell i bwrpas. Mae dealltwriaeth disgyblion o ffracsiynau a chanrannau yn briodol.
159. Gwna'r disgyblion ddefnydd pwrpasol o unedau safonol mesur hyd, mas a chynhwysedd mewn cyd-destunau ymarferol. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o briodweddau siapiau dau a thri dimensiwn a gallant ddarllen a phlotio cyfesurynnau yn y pedwar cwadrant.
160. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r disgyblion yn casglu, trefnu ac aildrefnu, a dehongli data yn dda. Maent wedi dechrau defnyddio'r raddfa tebygolrwydd gan ddefnyddio'r eirfa briodol.

#### Diffygion



161. Nid yw gallu disgyblion Cyfnod Allweddol 1 i ddewis y gweithrediad priodol wrth ddatrys problemau wedi'i ddatblygu'n ddigonol.
162. Ar draws Cyfnod Allweddol 2, mae grwpiau o ddisgyblion nad ydynt yn ddigon chwim wrth ymdrin â bondiau rhif ac wrth adalw ffeithiau llusosi.

### **Technoleg gwybodaeth**

**Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

#### **Nodweddion da**

163. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn defnyddio ystod briodol o offer a meddalwedd technoleg gwybodaeth gyda medrusrwydd cynyddol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Lluniant ddarnau o waith ysgrifenedig yn annibynnol ar y sgrin gan addasu'r testun yn ôl y gofyn. Gyda chymorth, gallant arbed gwaith, ei adfer a'i addasu cyn ei argraffu.
164. Dangosant feistrolaeth dda ar lygoden er mwyn symud delweddau ar y sgrin. Defnyddiant becynnau arlunio yn effeithiol i greu lluniau a phatrymau celfydd iawn a gyda chymorth, lluniant amrywiaeth o raffiau. Gallant reoli a chyfarwyddo'r cyrchwr ar y sgrin yn effeithiol.
165. Gyda chymorth, gallant chwilio am wybodaeth ar y We.
166. Mae nifer dda o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ddefnyddwyr hyderus o gyfarpar a meddalwedd technoleg gwybodaeth. Maent yn cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth mewn gwahanol ffurfiau, gan gynnwys testun, graffiau a lluniau, yn effeithiol. Dangosant feistrolaeth dda o'r prosesydd geiriau wrth iddynt olygu ac addasu eu gwaith ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio'r We i chwilio am wybodaeth o wahanol safweoedd. Defnyddiant becynnau arlunio yn gelfydd i gynhyrchu lluniau a phatrymau o ansawdd da.
167. Mae gallu'r disgyblion i ddefnyddio rhaglenni bas data ar gyfer cofnodi, holi ac aildrefnu data yn datblygu'n dda.

#### **Diffygion**

168. Nid oes diffygion pwysig.

### **Daearyddiaeth**

**Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

#### **Nodweddion da**

169. Mae medrau ymholi daearyddol disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn dda. Gallant lunio cynllun syml o'r ysgol a defnyddio symbolau darluniadol i ddynodi lleoliad gwahanol wrthrychau yn yr ystafelloedd. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn gallu disgrifio eu taith i'r ysgol mewn manylder a rhoi cyfarwyddiadau clir trwy ddefnyddio termau megis de, chwith a syth ymlaen. Defnyddiant gyfesurynnau syml yn gywir i nodi lleoliadau gwrthrych ar rid. Gallant leoli Bancffosfelen a rhannau o Gymru ar fap a gwyddant am wledydd y Deyrnas Unedig.
170. Mae ganddynt wybodaeth dda o'u hardal leol. Gallant ddisgrifio cyfleusterau a gwasanaethau eu pentref gyda manylder addas a'u cymharu gyda'r rheini mewn tref fawr. Gallant drafod pellter cymharol pentrefi cyfagos ac awgrymu'r dulliau mwyaf hwylus o deithio iddynt.
171. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae'r disgyblion yn gallu gofyn amrywiaeth o gwestiynau addas ynglŷn â nodweddion daearyddol ardal Eryri a gallant ddefnyddio ystod dda o ffynonellau megis mapiau, lluniau a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gynnal ymchwiliad syml. Gallant ddisgrifio mewn manylder y nodweddion daearyddol sy'n rhoi cymeriad i leoedd gan ddefnyddio'r termau daearyddol perthnasol.
172. Gall y disgyblion wahaniaethu rhwng patrymau dynol a phatrymau ffisegol mewn ardal gan arddangos dealltwriaeth addas o effaith gweithgareddau dynol ar yr amgylchedd naturiol. Maent yn disgrifio ac yn cynnig esboniadau deallus am y ffyrdd y gall pobl wella neu niweidio amgylcheddau gan ddangos ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadwraeth.

## Diffygion

173. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn ansicr o berthynas pobl â'r amgylchedd.
174. Nid yw gallu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i lunio a defnyddio amrywiaeth o fapiau o wahanol raddfeydd wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

<b>Addysg gorfforol</b>
-------------------------

**Cyfnod Allweddol 1 - Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

**Cyfnod Allweddol 2 - Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

## Nodweddion da

175. Mewn gwersi gymnasteg yng Nghyfnod Allweddol 1, mae disgyblion yn symud yn egniol ac yn ymateb yn fywiog i gerddoriaeth. Maent yn defnyddio gofod yn synhwyrol wrth deithio mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn newid cyfeiriad a chyflymder yn hyderus. Llwyddant i greu dilyniannau addas o symudiadau.
176. Mewn gwersi dawns, mae disgyblion Blynnyddoedd 3, 4 a 5 yn ymateb gyda sensitifrwydd i gerddoriaeth ac yn gweithio'n effeithiol ar wahanol lefelau. Arfarnant waith ei gilydd yn addas.

177. Mae gan ddisgyblion Blwyddyn 6 ymwybyddiaeth dda o rannau o'r corff wrth wneud gymnasteg. Llwyddant yn dda i greu dilyniannau o symudiadau gan ddefnyddio cydbwysedd a chreu gwahanol siapiau gyda'r corff. Cydweithiant yn dda gyda phartner, gan werthuso'r gwaith yn synhwyrol, a gwella'u symudiadau.
178. Gŵyr disgyblion ar draws yr ysgol am effaith llesol ymarfer ar y corff ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd gweithio'n ddiogel.

### Diffygion

179. Yng Nghyfnod Allweddol 1, mae diffyg llif yn y dilyniannau o symudiadau mewn gwersi gymnasteg.
180. Mae nifer fach o ddisgyblion ar draws Cyfnod Allweddol 2 yn arddangos diffyg rheolaeth dros eu cyrff, a diffyg ymwybyddiaeth o'r corff cyfan, mewn gwersi dawns a gymnasteg.

### Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae Ysgol Bancffosfelen yn falch i dderbyn canfyddiadau'r Arolygiad am eu bod yn cydweddu'n agos â chanfyddiadau dogfen hunan-arfarnu'r ysgol. Mae canfyddiadau'r Arolygiad yn cydnabod naws ac ethos teuluol yr ysgol, y cyd berthynas dda sydd rhwng y staff a'r disgyblion, rhwng yr ysgol a'r rhieni a rhwng y corff llywodraethol a'r ysgol.

Mae'r Arolygiad wedi cadarnhau ein bod wedi gwneud cynnydd yn y rhan fwyaf o feysydd ers yr Arolygiad diwethaf yn 1999. Cydnabyddir y gwaith da y mae'r staff cyfan yn ei wneud i hybu datblygiad plant. Rydym yn ymfalchïo bod y plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn derbyn gofal, arweiniad a chymorth da iawn oddi wrth y staff.

Mae'r Arolygiad hefyd wedi cadarnhau ein bod yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac addas sy'n diwallu anghenion pob disgybl. Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol eisoes yn ymgorffori materion sydd wedi eu nodi gan y Tîm Arolygu ac fe fyddwn yn awr yn addasu'r Cynllun i ymgorffori'r argymhellion a wnaed. Fe fyddwn yn mynd ati i geisio codi safonau yn y Gymraeg ac addysg gorfforol drwy ymateb i'r diffygion a nodwyd gan yr arolygwyr. Gan fod y staff nawr yn gyflawn fe fyddwn yn gallu gweithredu'r rhaglen hunan-arfarnu'n llawn, gan gryfhau rôl monitro'r cydlynwyr pwnc a'r corff llywodraethol. Byddwn yn mynd ati i drefnu hyfforddiant i'r staff er mwyn sefydlu cyfundrefn amser cylch ym mhob dosbarth. Er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith a datblygu medrau menter y disgyblion fe fyddwn yn ceisio rhoi cyfle i'r plant gynnal siop fwyd iach amser egwyl a chydweithio'n agos gydag asiantaethau lleol megis Menter Cwm Gwendraeth.

Bydd staff a Llywodraethwyr yr ysgol yn cydweithio er mwyn gosod ffocws ar y gweithredoedd yma er mwyn sicrhau datblygiad pellach i rôl a statws Ysgol Bancffosfelen yn ein cymuned.

## Atodiad A

### Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Bancffosfelen
Math o ysgol	Gymunedol Gynradd
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Bancffosfelen, Llanelli, Sir Gaerfyrddin
Cod post	SA15 5DR
Rhif ffôn	01269 870272
Pennaeth	Mr Glenn Evans
Dyddiad penodi	Ionawr 1998
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mrs Deris Williams
Arolygydd Cofrestredig	Wil Williams
Dyddiadau'r arolygiad	14-16 Tachwedd 2005

## Atodiad B

### Data a dangosyddion yr ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn								
Grwp blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	4	5	6	6	4	5	12	42

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	3	1	3.6

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	11.6:1
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	14
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.2:1

Canran y presenoldeb ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad		
Tymor	D	Gweddill yr ysgol
Hydref 2004	92.1	92.5
Gwanwyn 2005	85.3	90.1
Haf 2005	87	90.8

Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim	21%
Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	1

## Atodiad C

### Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol: Diwedd Cyfnod Allweddol 1

<b>Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005</b>	Nifer y disgyblion yn B2	6
Gan fod nifer y disgyblion cymwys i'w hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn uwch na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir		

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 2 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (mamiath) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	50%	Yng Nghymru	80%

### Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol: Diwedd Cyfnod Allweddol 2

<b>Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2005</b>						Nifer y disgyblion yn B6						10
<b>Canran y disgyblion ar bob lefel</b>												
			D	A	F	W	1	2	3	4	5	4+
Saesneg	Aseiad athro	Ysgol					10		20	40	30	70
		Cenedlaethol	1				1	5	16	46	30	76
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol						20	10	30	40	70
		Cenedlaethol	1		1		1	3	17	49	28	77
Mathemateg	Aseiad athro	Ysgol						20	10	30	40	70
		Cenedlaethol					1	3	17	46	31	77
Gwyddoniaeth	Aseiad athro	Ysgol						10	20	50	20	70
		Cenedlaethol						1	11	50	37	87

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth, a naill ai Saesneg neu Gymraeg (mamiath) yn ôl Aseiad Athro	
Yn yr ysgol	70
Yng Nghymru	72%

- D Disgyblion yn cael eu heithrio dan drefniadau statudol o ran neu'r cyfan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol  
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb  
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau heblaw am absenoldeb  
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

## Atodiad Ch

### Sail tystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd tri arolygydd gyfanswm o chwe diwrnod arolygydd yn yr ysgol, a chyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â:

- dau ddeg a dau o wersi neu wersi rhannol;
- phob dosbarth;
- addoli ar y cyd; ac
- Ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn i'r arolygiad ddechrau; ac
- uwch reolwyr, athrawon, staff cymorth a staff gweinyddol a grwpiau o ddisgyblion yn ystod yr arolygiad.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol;
- dau ddeg o ymatebion i holiadur rhieni;
- dogfennaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad; ac
- ystod eang o waith disgyblion yn y gorffennol a heddiw.

Cafodd y tîm arolygu cyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr ar ôl yr arolygiad.

## Atodiad D

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Arolygydd	Math	Agweddau	Pynciau/meysydd dysgu
Mr Wil Williams	A Cof	Cyd-destun; Crynodeb Argymhellion; Atodiadau Cwestiynau allweddol 1;3;5 a 6	Mathemateg, technoleg gwybodaeth, daearyddiaeth
Mrs Zohrah Evans	Tîm	Cwestiynau allweddol 2;4 a 7	Dan 5, Cymraeg, addysg gorfforol
Mr Eilian James	Lleyg	Cyfrannu at gwestiynau allweddol 1; 3; 4 a 7	

**Contractwr:** Arolygiadau Deheubarth Inspections; Afallon; Heol Llandeilo; Gorslas; Llanelli; SA14 7LU.

### Cydnabyddiaeth

Hoffai'r arolygwyr a fu'n ymweld â'r ysgol ddiolch i'r llywodraethwyr, i'r pennaeth a'r staff, am y cydweithrediad a'r cwrteisi a roddwyd iddynt yn ystod yr arolygiad.

# ADRODDIAD CRYNO

## AR YR AROLYGIAD O YSGOL BANCFFOSFELEN

© Hawlfraint y Goron 2005. Gellir aildefnyddio'r Adroddiad hwn yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y bod yn cael ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr Adroddiad. Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, rhaid i'r ysgol roi copïau o'r adroddiad hwn yn rhad ac am ddim i gategorïau penodol o bobl. Hwyrach y caiff ffi heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ei chodi ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Bancffosfelen fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Y diben yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg sy'n cael ei gynnig a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Mae'r arolygiad o'r holl ysgolion o fewn cylch chwe blynedd hefyd wedi'i gynllunio i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn. Caiff copi o'r crynodeb hwn ei anfon at bob teulu sydd â phlentyn yn yr ysgol. **Gellir cael copi o'r adroddiad llawn gan yr ysgol.**

Cynhaliwyd arolygiad Ysgol Bancffosfelen rhwng 14-16 Tachwedd 2005. Cynhaliodd tîm annibynnol o arolygwyr, a arweiniwyd gan Mr Wil Williams yr arolygiad. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond sydd wedi 'i ariannu ganddo.

Roedd angen i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan y disgyblion, ansawdd yr addysg sy'n cael ei gynnig gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, a'r cyfraniad a wnaed gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

Mae'r raddfa bum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn, fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	da gyda nodweddion rhagorol
<b>Gradd 2</b>	nodweddion da a dim diffygion pwysig
<b>Gradd 3</b>	nodweddion da'n gorbwyso diffygion.
<b>Gradd 4</b>	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig.
<b>Gradd 5</b>	llawer o ddiffygion pwysig

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, mae yna adroddiadau hefyd ar chwe phwnc allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, mae yna adroddiadau hefyd ar bob pwnc.

Estyn sy'n penderfynu'r math o arolygiad a gaiff ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Caiff y rhan fwyaf o ysgolion arolygiad safonol. Caiff pob ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion sydd wedi eu cyfuno arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad safonol.

Roedd canfyddiadau'r ysgol yn cyd-fynd â barn y tîm arolygu mewn pump o'r saith Cwestiwn Allweddol. Roedd gwahaniaeth barn yng Nghwestiynau Allweddol 4 a 7 i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 3 i'r ddau gwestiwn allweddol.

Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

Cwestiwn allweddol	Gradd yr arolygiad
Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	3
Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	3
Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	3
Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	2
Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	3
Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	3
Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

## Safonau

Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
0%	56%	44%	0%	0%

Mae safonau cyflawniad yn y meysydd dysgu a'r pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Meysydd Dysgu	Dan bump oed
Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 3
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2



<b>Pynciau</b>	<b>Cyfnod allweddol 1</b>	<b>Cyfnod allweddol 2</b>
Cymraeg	Gradd 3	Gradd 3
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 2
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 2
Addysg gorfforol	Gradd 3	Gradd 3

Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at Ganlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

Mae pob disgybl yn yr ysgol yn llwyddo beth bynnag fo ei gefndir cymdeithasol neu ieithyddol. Gwna'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gynnydd da o fewn eu gallu a'u hoedran.

Yn y medrau allweddol, gwna'r plant dan bump gynnydd da yn eu medrau cyfathrebu a mathemategol a dônt yn fwyfwy hyderus yn eu defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae gan y dysgwyr ddealltwriaeth oddefol dda o gyfarwyddiadau pob dydd yn y Gymraeg.

Gwna disgyblion Cyfnodau Allweddol 1 a 2 gynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau cyfathrebu. Gwnânt gynnydd da yn eu medrau mathemategol ac yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer cefnogi eu dysgu.

Mae hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn datblygu'n briodol ac erbyn Blwyddyn 6, mae canran da ohonynt yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg mewn nifer cyfyngedig o gyd-destunau cwricwlaidd. Er hynny, nid oes cynllunio digon bwriadus yng Nghyfnod Allweddol 2 ar gyfer datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr holl bynciau.

Roedd cyrhaeddiad y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn 2005, yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob pwnc craidd. Roedd perfformiad y merched yn sylweddol well na pherfformiad y bechgyn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg o ran y ganran o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol di-dâl, roedd canlyniadau disgyblion y ddau gyfnod allweddol ym mhob pwnc yn y chwarter isaf o'r perfformiad cenedlaethol.

Gwna disgyblion o bob oedran gynnydd da yn eu dysgu. Maent yn ymateb yn frwdfrydig yn y gwersi ac yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gwaith. Mae eu gallu i ddadansoddi eu gwaith a nodi sut y gellir ei wella, yn gyfyng.

Nid yw gallu disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol i weithio'n annibynnol wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Gellir priodoli hyn i raddau i dueddiad rhai athrawon i wneud gormod ar eu rhan.

Mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol. Cydweithiant yn rhwydd gyda'u cyd-ddisgyblion, maent yn ystyriol o deimladau disgyblion eraill ac yn ymroddedig i'w gwaith. Mae safonau ymddygiad disgyblion o bob oedran yn dda.

Mae medrau creadigol disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn dda, gyda rhai nodweddion rhagorol.

Trwy gydol yr ysgol, mae'r disgyblion yn parchu'r amrywiaeth credoau a thraddodiadau diwylliannol a chymdeithasol eraill. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o faterion cyfleoedd cyfartal ac o degwch. Mae hon yn nodwedd ragorol yn yr ysgol.

Roedd canran cyfartalog presenoldeb yr ysgol ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad, yn 91% ac mae lle i wella. Mae'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore.

### **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn :

<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
5%	59%	36%	0%	0%

Mae ansawdd addysgu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a'r plant dan bump yn gyson dda.

Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi yn gyffredinol dda. Mae'r athrawon yn cynllunio'n drylwyr, mae'r drefniadaeth ddosbarth yn effeithiol ac mae perthynas waith dda rhwng yr athrawon a'r disgyblion. Mae gan athrawon wybodaeth gadarn o'r pynciau a addysgir ganddynt; gwnânt ddefnydd effeithiol o adnoddau a defnyddiant ddulliau addysgu addas i gadarnhau hyfedredd dwyieithog disgyblion.

Pan fo nodweddion rhagorol i'r addysgu, mae cyflwyniadau'r athrawon yn fyrlymus ac ysgogol, mae'r tasgau'n heriol ac mae cyflymdra da iawn i'r gwersi.

Mewn lleiafrif bychan o wersi, mae cyflwyniadau'r athrawon yn rhy hir ac yn arafu'r addysgu, mae'r tasgau'n methu cynnal diddordeb y disgyblion ac mae diffyg her i'r gwaith.

Mae'r asesu yn drylwyr ac o ansawdd da. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac mae'r targedau personol a bennir i bob disgybl yn rhoi nod clir

iddynt ar gyfer gwella. Nid yw'r sylwadau ar waith disgyblion bob amser yn esbonio'n glir sut y gallant ei wella.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi darlun clir o gyflawniadau'r disgyblion ym mhob pwnc a rhoddant sylwadau gwerthfawr am eu datblygiad cymdeithasol.

Mae cynlluniau gwaith ar gyfer pob maes sy'n sicrhau y caiff y medrau sylfaenol, y medrau allweddol a'r Cwricwlwm Cymreig sylw digonol yn y cwricwlwm. Nid oes cynllunio digon bwriadus ar gyfer cyflwyno Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac mae bylchau yn y ddarpariaeth.

Mae trefn glir ym Mlwyddyn 6 ar gyfer gosod gwaith cartref i'r disgyblion, ond nid yw'r arfer hwn yn gyffredin trwy'r ysgol.

Cyfoethogir y cwricwlwm gan amrywiaeth o ymweliadau addysgol a bydd disgyblion yn datblygu medrau gwerthfawr wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol megis eisteddfodau a chystadlaethau chwaraeon. Serch hynny, mae'r ystod o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir yn gyfyng. Nodwyd hyn fel maes i'w wella yn adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol.

Mae'r cyfarfodydd addoli-ar-y-cyd yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion o faterion moesol ond ychydig o sylw a roddir ynddynt i ddatblygiad ysbrydol y disgyblion.

Mae partneriaeth dda rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae Cymdeithas Ffrindiau'r Ysgol weithgar sy'n trefnu nifer o weithgareddau ar gyfer codi arian i brynu adnoddau i'r ysgol. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer cyfathrebu gyda'r rhieni.

Mae perthynas dda rhwng yr ysgol a'r gymuned a gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal.

Mae strategaethau'r ysgol ar gyfer delio ag amddifadedd cymdeithasol a herio stereoteipio yn un o elfennau rhagorol y ddarpariaeth. Sicrheir mynediad a chyfle cyfartal i bob disgybl. Mae polisïau cadarn ar gyfer addysg ryw, cyfleoedd cyfartal a chydraddoldeb hiliol.

Rhoddir lle priodol yn y cwricwlwm i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy ac mae arferion megis gweithredu trefn ailgylchu papur, yn pwysleisio pwysigrwydd y maes. Mae profiadau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm yn eu galluogi i ennill ystod addas o fedrau sy'n werthfawr o ran dysgu gydol oes.

Mae'r cysylltiadau gyda busnes a diwydiant yn brin ac ychydig iawn o sylw a roddir i ddatblygu medrau menter y disgyblion. Mae'r ysgol wedi adnabod hyn yn yr adroddiad hunan-arfarnu.

Mae ansawdd y gofal, yr arweiniad a'r cymorth a gynigir i ddisgyblion yn dda. Mae'r staff yn adnabod pob unigolyn yn dda ac mae'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol. Cymerir camau effeithiol i sicrhau diogelwch disgyblion ac mae gweithdrefnau addas i hyrwyddo ymddygiad da ac i atal bwllian.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer adnabod a rhoi cynhaliaeth i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn dda. Cânt gefnogaeth dda yn y dosbarth gan y cymorthyddion.

Mae polisïau ar gyfer addysg ryw, cyfleoedd cyfartal a chydraddoldeb hiliol wedi'u sefydlu'n gadarn ac yn hysbys i bob aelod o'r staff. Mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys rhai ag anabledd. Llwydda'r ysgol yn dda i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae arweinyddiaeth gadarnhaol y pennaeth yn cydlynu gwaith y staff a'r corff llywodraethwyr yn effeithiol, gan roi cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol. Rheolir yr ysgol o ddydd-i-ddydd yn effeithiol ac mae trefniadau da ar gyfer cysylltu gyda'r rhieni.

Mae'r athrawon yn ddiweddar wedi ysgwyddo cyfrifoldebau cwricwlaidd newydd, ond nid ydynt eto wedi dechrau gweithredu eu rôl fel cyd-gysylltwyr pwnc.

Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn drylwyr iawn. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn chwarae rhan weithredol yn ei datblygiad, ond nid yw eu rôl monitro ac arfarnu wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae rhai nodweddion da yn strategaethau hunan-arfarnu'r ysgol er bod bylchau yn y trefniadau. Nid ydynt wedi bod yn weithredol yn ddigon hir iddynt arwain at godi safonau a gwella'r ddarpariaeth addysgol.

Mae cyswllt da rhwng deilliannau'r hunan-arfarniadau a blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol. Mae'r cynllun yn gyffredinol dda, er nad oes gwahaniaethu digon clir rhwng y brif flaenoriaeth a'r rheini nad ydynt cyn bwysiced.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da mewn tri o'r pum Mater Allweddol a nodwyd yn adroddiad 1999. Mae'r safonau mewn mathemateg, technoleg gwybodaeth ac addysg gorfforol wedi codi, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig bellach yn dda a gwnaed pob ymdrech i wneud y gorau o gyfleusterau'r adeilad. Mae mwy o waith i'w wneud ar ddatblygu rôl y cyd-gysylltwyr pwnc ac ar ddileu rhai o'r diffygion yn yr addysgu.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol ac effeithlon o'i holl adnoddau dynol. Mae digon o athrawon gyda chymwysterau addas i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Mae cyflenwad digonol o adnoddau ar gyfer y mwyafrif helaeth o'r meysydd a gwneir defnydd effeithiol o holl ystafelloedd a thiroedd yr ysgol. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn groesawgar ac yn lliwgar, gyda'r arddangosfeydd o waith disgyblion yn adnodd dysgu ac addysgu gwerthfawr.

Mae rheolaeth dynn ar y gyllideb; mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

Er mwyn gwella'r meysydd a arolygwyd yn yr ysgol, mae angen i'r staff a'r llywodraethwyr:

- A1 godi safonau yn y Gymraeg ac addysg gorfforol trwy roi sylw i'r diffygion a nodwyd;
- A2 weithredu'r rhaglen hunan arfarnu a chryfhau rôl monitro y corff llywodraethu;
- A3 ddatblygu rôl y cydlynwyr pwnc yn y trefniadau hunan arfarnu;
- A4 gynllunio yn fwy bwriadus ar gyfer cyflwyno gofynion y Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol.
- A5 wella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith a datblygu medrau menter y disgyblion.

Y corff llywodraethol sy'n gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau mewn ymateb i'r argymhellion o fewn 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud am yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i holl rieni'r ysgol.

**Hoffai'r arolygwyr a fu'n ymweld â'r ysgol ddiolch i'r llywodraethwyr, i'r pennaeth a'r staff, am y cydweithrediad a'r cwrteisi a roddwyd iddynt yn ystod yr arolygiad.**